**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2017 at 10.00 am**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Sir P. Farley (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sir R. Harris (Is-Gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: R. Chapman, R. Edwards, M. Hickman, P. Jones, P. Jordan a A. Wintle.

Hefyd yn bresennol oedd y Cynghorwyr Sir: V. Smith, G. Burrows a P. Murphy

**HEFYD YN BRESENNOL**

D Hill, Aelod Cyd-etholedig
D Hudson, Aelod Cyd-etholedig

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Julie Boothroyd | Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Tyrone Stokes | Cyfrifydd |
| Hazel Ilett | Rheolwr Craffu |
| Mark Howcroft | Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |
| Ian Bakewell | Swyddog Tai a Chymunedau |
| Andy McMahon | Syrfëwr Grantiau Tai |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir P. Watts a'r Cynghorydd Sir G. Burrows, Aelod o'r Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Fe ddatganodd y Cynghorydd Sir A.Wintle fuddiant personol, di-ragfarn mewn perthynas ag eitem 4 a 5 fel aelod o fwrdd Cymdeithas Tai Sir Fynwy.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

3. **Cydbwyllgor Dethol Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc - 22 Ionawr 2016**

Fe gadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Oedolion ar y Cyd a'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

4. **Pwyllgor Dethol Arbennnig Oedolion - 29 Tachwedd 2016**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2017 at 10.00 am**

Fe gadarnhawyd cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**5. Pwyllgor Dethol Oedolion - 13 Rhagfyr 2016**

Fe gadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**6. Trafodaeth ar Daliadau Dai yn ôl Disgresiwn**

**6. Trafodaeth ar Argymhellion ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn**

**Cyd-destun:**
Fe fynychodd y Cynghorydd Sir P. Hobson, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Dai, y cyfarfod mewn ymateb i lythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd yn cynnwys argymhellion i'r Cabinet yn dilyn craffu cyn-penderfynu ar y Polisi Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn fel rhan o'i graffu ehangach o ddiwygio lles.

**Argymhellion:**
1. Fe argymhellir bod y Cabinet yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gytuno i gynyddu'r arian y mae'n ei buddsoddi yn y gronfa Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn , gan gydnabod yr effaith amlwg mae'r ariannu wedi cael ar bobl agored i niwed a'r risgiau a goblygiadau o beidio â chefnogi pobl trwy ostwng budd-daliadau ymhellach, yn enwedig o ran atal digartrefedd a phlant yn cael eu cymryd i mewn i ofal y Cyngor.
2. Gan gymryd fod llawer o'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno mewn awyrgylch cartref, argymhellir bod y Cabinet yn cydnabod yr angen am system rybuddio gorfforaethol hygyrch i adnabod cleientiaid a chartrefi y gallai fod yn risg i weithwyr unigol. Dealla'r Pwyllgor bod Torfaen yn gweithredu model tebyg i ddiogelu ei gweithlu.
3. Argymhella'r Pwyllgor bod pob asiantaeth sy'n gweithio ym maes budd-daliadau, megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r Cyngor yn ystyried y potensial i rannu arfer gorau ac archwilio cyfleoedd i greu effeithiolrwydd ac economïau wrth ddarparu gwasanaethau cynghori ar lesiant.
4. Ar ben hynny, argymhella'r Cyngor cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Cynllunio i ystyried y berthynas rhwng digartrefedd, budd-daliadau tai a'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Fynwy.

**Ymatebion i argymhellion gan Weinidog y Cabinet**
1. Fe ystyriodd y Cabinet yr argymhelliad ac nid yw'n bwriadu cynyddu'r gyllideb ar gyfer y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar hyn o bryd. Rhagwelir na fydd y gofynion ar y gyllideb hon yn cael eu huchafu a bod anghenion a gofynion yn cael eu bodloni yn sgil hyn. O ran yr effaith a'r risg o beidio â chefnogi pobl, fe nodwyd bod y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi cynorthwyo sefydlogrwydd mewn cartrefi a fyddai dan fygythiad fel arall. Fe ychwanegwyd mai cyfrifoldeb Llywodraeth Ganolog yw polisi llesiant a newid ym mudd-daliadau; mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag effeithiau'r newidiadau gyda'r Cabinet yn monitro'r galw ar y gyllideb wrth i newidiadau ddigwydd.

Fe esboniodd y Swyddog Tai a Chymunedau bod y gefnogaeth a ddarperir gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn arwyddocaol yn Sir Fynwy am resymau fforddiadwyedd yn ôl adborth gan asiantaethau. Fe gytunwyd i dderbyn adroddiadau monitro mwy manwl ac aml er mwyn darparu gwybodaeth gliriach ar gyfer y Pwyllgor. Fe ychwanegwyd y gellir rhagweld mwy o bwysau ar y

gyllideb y flwyddyn nesaf wrth i'r newidiadau i reoleiddiad symud yn eu blaenau (Cap Budd-daliadau - trothwy is a newidiadau i reoliadau Budd-daliadau Tai ar gyfer pobl sengl, dan 35, mewn tai cymdeithasol).

2. O ran y cwestiwn o aelodau o staff yn gweithio mewn awyrgylch a allai fod yn beryglus (cartrefi), fe gynghorwyd mai'r gobaith oedd cyflwyno cronfa ddata rhybuddio i weithwyr ar gyfer staff ar draws y gyfarwyddiaeth ac aelodau etholedig yn ddiweddarach eleni. Mae'r system rhybuddio gynnar yn cael ei defnyddio yn Nhorfaen ac mae llawer o ddiddordeb wedi cael ei fynegi, ond ar hyn o bryd mae diffyg adnoddau i weinyddu'r gronfa ddata. Bydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i drafod opsiynau a bydd is-grŵp Trais tuag at Staff yn cael ei greu i symud y mater ymlaen. Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch hefyd yn trafod gyda Careline i weld a ellir defnyddio'r system honno a'r staff. Fe groesawyd y cynnydd a wnaed.

3. Mewn perthynas â dyblygiad canfyddedig, fe nodwyd y bydd y Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol, Economaidd a Digidol (FEDIP) yn mynd i'r afael â'r mater hwn a byddant yn adolygu'r trefniadau cyfredol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau, osgoi dyblygiad a lleihau bylchau. Esboniwyd bod yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Addysg i Oedolion yn bartneriaid allweddol. Melin sy'n cyflwyno'r cytundeb cyflwyno'r Credyd Cynhwysol gyda Budd-daliadau Tai ar gyfer cyllido a chefnogaeth ddigidol ar gyfer preswylwyr. Mae Sir Fynwy yn cefnogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Chymdeithasau Tai o ran ceisio osgoi achosion o droi allan. Os oes dau daliad olynol yn cael eu colli, bydd cymdeithas tai neu landlord cymdeithasol cofrestredig yn cyfeirio ar swyddog cynhwysiant ariannol Sir Fynwy. Fe ddarparwyd tystiolaeth o gydweithio rhwng asiantaethau: Mae staff Melin yn gweithio o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth ddwywaith yr wythnos. Mae Cymdeithas Tai Charter ar fin cychwyn datblygiad tai a rennir. Mae gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy gynllun peilot ar y gweill.

4. Fe gadarnhawyd bod cyfarfod ar y cyd â'r adran gynllunio wedi cael ei drefnu ar 14 Chwefror i ystyried y berthynas rhwng digartrefedd, budd-daliadau tai a'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Roedd ychydig o ddryswch o ran cylch gorchwyl y Pwyllgorau Dethol mewn perthynas â thai. Mae cydnabyddiaeth y bydd fforddiadwyedd yn bwysau i fynd i'r afael ag ef oherwydd bod poblogaeth y sir yn heneiddio a bod angen cadw pobl ifanc yn yr ardal er mwyn cynnal poblogaeth gytbwys. Fe drafodwyd anawsterau'r sector "canol" mwyaf sy'n ennill gormod i gael llety cymdeithasol, ond ddim digon i gael morgais, a hefyd y gost uchel o rentu'n breifat.

Fe esboniwyd bod gan Gyngor Sir Fynwy drefniadau prydlesu preifat gyda landlordiaid sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â digartrefedd.

**Craffu gan Aelodau**

Gofynnodd Aelod gwestiwn yn ymwneud â ffigurau digartrefedd ac fe gadarnhawyd bod y tueddiad yn sefydlog. Mae llif cyson o anghenion ail-letya ac mae lleoliadau gwely a brecwast wedi cynyddu ychydig.

Fe nododd Aelod bod gan y Cynllun Datblygu Lleol dyraniad o 35% o dai fforddiadwy ond bod datblygwyr yn gostwng hyn i 30% neu'n is ac er mwyn cael darpariaeth ddigonol o dai cymdeithasol, mae angen i'r Adran Gynllunio fod yn fwy cadarn.

Fe holwyd a oedd y ffigurau ar gyfer diffyg tai fforddiadwy yn Sir Fynwy ar gael ac fe ymatebwyd gan ddweud bod targed yn y Cynllun Datblygu Lleol o 96 tŷ y flwyddyn, ac os cyflawnir hyn, byddai'n bodloni'r gofynion. Fe esboniwyd y lefel gyfredol o angen a galw.

Fe esboniodd yr Aelod o'r Cabinet, o ran llety fforddiadwy, bod yna rhaniad dymunol o 35% / 25% (gall fod hyd at 60%) ac y dylid cyfathrebu'r ffigurau hyn i'r datblygwyr o'r cychwyn fel man cychwyn a fydd yn cael ei drafod gan ddibynnu ar ffactorau megis y safle a'r lleoliad. Fe ddadleuwyd bod y datblygwyr yn gwybod eu costau cyfalaf a chost uned ac y byddant yn cyllido ar y gost o brynu'r tir ac yn ychwanegu amrywioldeb yn unol â hyn.

Darparwyd eglurhad na fod Cyngor Sir Fynwy yn adeiladu tai cyngor, gan ychwanegu bod yna ddyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn bodloni'r angen hwnnw, yn bennaf trwy ddatblygwyr ac weithiau trwy Gymdeithasau Tai sy'n adeiladu tai cymdeithasol. Os nad yw'r datblygwyr yn parhau gyda safle, neu os oes oedi yn y broses, efallai bydd oedi wrth gyrraedd y targed. Yn ddiweddar, mae safleoedd sylweddol yn y sir wedi parhau a bydd argaeledd unedau fforddiadwy yn cynyddu yn unol â hyn. Fe nodwyd hefyd, os nad yw datblygwr yn bodloni'r cwota fforddiadwyedd, bod y Cyngor yn herio hyn yn gadarn.

Fe fynegodd Aelod o'r Pwyllgor bryder yn ymwneud â'r anawsterau a gafwyd wrth symud pobl o'r ysbyty a gofynnwyd a oedd digon o dai cymdeithasol ar gael. Fe atebwyd bod tai cymdeithasol yn gallu bod yn opsiwn ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty ac yn aml, roedd dyhead am lety llawer daear neu addasadwy a bod dim digon o'r rheini ar gael. Fe ychwanegwyd bod proses parhaus bob blwyddyn i adnabod angen ac amgylchiadau, gan weithio fwyfwy gyda chydweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y wybodaeth yn cael ei gynnwys yn y rhaglen datblygu tai fforddiadwy. Datblygiad cyfyngedig sydd o lety anabl. Mae Cymdeithasau Tai yn barhaus yn ceisio cynyddu, ail-ddylunio ac adnewyddu'u stoc er mwyn cynyddu nifer yr opsiynau.

Mewn ymateb i ymholiad, amcangyfrifir bod angen 4000 uned o dai cymdeithasol i'w rhentu a tua 8000 cartref fforddiadwy i'w prynu ond, wrth i opsiynau fforddiadwy gynyddu, fe ragwelir y bydd y galw'n cynyddu. Fe soniwyd am ddatblygiad Loftus yng Nghasnewydd fel esiampl o fodel addas.

**Sylwadau'r Cadeirydd:**
Fe ddiolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet dros Ddatblygiad Cymunedol (Tai) am yr atebion defnyddiol a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiynau a phryderon, ac i annog deialog. Fe ddiolchwyd hefyd i'r Swyddog am ddarparu cefnogaeth a dealltwriaeth.

Fe groesawyd y ffaith bod cyfarfod wedi cael ei drefnu ar 14 Chwefror dan arweiniad Pwyllgor yr Economi a Datblygiad. Gwahoddwyd aelodau o bob panel i fynychu.

Daethpwyd i'r casgliad bod y Pwyllgor yn fodlon gyda'r atebion a roddwyd. Fe ystyriwyd y materion a oedd yn weddill yn ymwneud â chyswllt rhwng y Pwyllgorau Dethol, fe ystyriwyd eu hargymhellion a'u bwydo yn ôl i'r Cabinet. Fe awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Cydlynu fynd i'r afael â'r materion hyn.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2017 at 10.00 am**

**7. Cyllid Cyfalaf: Grant Cyfleusterau Anabl a Diogelwch yn y Cartref**

**7. Cyllid Cyfalaf: Cyfleusterau Anabl a Grant Diogelwch yn y Cartref**

**Cyd-destun:**

Darparu diweddariad ar y gyllideb gyfalaf a ddarparwyd i gefnogi grantiau cyfleusterau anabl a grantiau Diogelwch yn y Cartref a'r effaith ar berfformiad cyffredinol y gwasanaeth ac ar wasanaethau a ddarperir gan Ofal Cymdeithasol ac Iechyd.

**Materion Allweddol:**

1. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu grantiau cyfleusterau anabl o fewn chwe mis o dderbyn cais dilys. Gall methiant i wneud hynny arwain at her gyfreithiol. Mae ganddo ddisgresiwn hefyd i ddarparu grantiau Diogelwch yn y Cartref. Ers 2006, mae cyllideb gyfalaf o £600,000 wedi cael ei darparu'n flynyddol i gyflwyno'r ddau fath o grantiau. Yn gyffredinol, fe rannir y grant yn £500,000 i gefnogi grantiau cyfleusterau anabl a £100,000 i gefnogi grantiau Diogelwch yn y Cartref.

2. Ar gyfer pob grant cyfleusterau anabl mae uchafswm o £36,000 a thra bod y mwyafrif tua £4,500, bob blwyddyn fe ddarperir nifer o grantiau mawr, cymhleth i fodloni anghenion plant gydag anableddau cymhleth ac yn fwyfwy ar gyfer oedolion sy'n anabl yn sgil trawma neu afiechydon dirywiol. Trwy adborth gan gleientiaid, mae'n hysbys bod addasiadau wedi cael effaith arwyddocaol ar ansawdd bywyd ymgeiswyr a gofalwyr. Hefyd, mae sgôr o 95% yn cael ei gyflawni'n rheolaidd o ran boddhad cwsmeriaid.

3. Mae grantiau Diogelwch yn y Cartref wedi'u bwriadu ar gyfer gwaith llai megis canllawiau, grisiau isel a mân addasiadau, yn aml yn costio llai na £250 ond sy'n gwneud cartref yn fwy diogel ar gyfer preswylydd anabl. Yn aml maen nhw'n cael eu comisiynu i hwyluso dod allan o'r ysbyty, neu i leihau'r risg o gwympo ac anafiadau a allai olygu bod rhaid i'r person fynd i'r ysbyty. Mae'r ddau grant yn chwarae rôl allweddol wrth hwyluso dod allan o'r ysbyty ac atal derbyniadau.

4. Ar ben yr effaith ar gleientiaid sy'n gorfod aros yn hirach er mwyn i'r addasiadau gael eu cwblhau, mae gan y diffyg blynyddol o gyllid a'r ymrwymiad llawn cynharach fyth (fel arfer yn yr hydref) effeithiau andwyol ar berfformiad mewn perthynas â grantiau cyfleusterau anabl sy'n Ddangosydd Perfformiad Allweddol sy'n cael ei fonitro'n agos gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

5. Mae dewisiadau amgen i grantiau cyfleusterau anabl a grantiau Diogelwch yn y Cartref yn bodoli ond does yr un mor ddeniadol â chymorth grant.Er hyn, mae rhai darpar ymgeiswyr yn dewis parhau gyda'r gwaith angenrheidiol ar eu traul eu hun. Gweler Atodiad 1 ar gyfer yr opsiynau eraill sydd ar gael.

**Craffu gan Aelodau:**

Fe nodwyd na fod y dyraniad cyfredol o £600,000 yn ddigonol i fodloni'r galw blynyddol a bod y gyllideb fel arfer wedi cael ei ymrwymo cyn Nadolig. Fe ddarparwyd amcangyfrif a oedd yn nodi bod y gyllideb £500,000 yn rhy isel i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith wrth gefn. Ar ddechrau mis Ionawr roedd 19 cais yn aros am grant cyfleusterau anabl ac mae hyn bellach wedi codi i 44 heddiw, gyda deufis o'r flwyddyn ariannol i ddod. Gellid derbyn hyd at 70 atgyfeiriad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond nid yw'r galw eto yn hysbys. Mae mwyafrif yr addasiadau oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio gyda cheisiadau am ystafelloedd gwlyb/cawod, lifftiau

grisiau a rampiau ond hefyd addasiadau mwy cymhleth er mwyn caniatáu i'r bobl ddod allan o'r ysbyty.

Fe ddarparwyd cyd-destun ariannol bod y rhaglen gyfalaf wedi cael ei hadolygu gydag ystyriaeth yn cael ei roi i'r newid ym mlaenoriaethau, yn amodol ar ddwy egwyddor bwysig; rhaid iddo ariannu eu hun neu, fel arall, rhaid iddo fod yn fwy o flaenoriaeth na rhywbeth arall oherwydd bod adnoddau'n brin. Adroddwyd bod £30,000 wedi cael ei ryddhau o gyllidebau Priffyrdd a Mynediad i Bawb er mwyn darparu swm bach o gyllid i fynd i'r afael â gofynion yn ymwneud ag ansawdd bywyd. Fel arall, bydd rhaid penderfynu ar flaenoriaethu grantiau cyfleusterau anabl ond fe esboniwyd bod braidd dim lle yn y rhaglen gyfalaf. Fe roddwyd gwybodaeth i aelodau am fenthyca.

Yn dilyn cyflwyniad yr adroddiad, fe wahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau:

Fe nodwyd hefyd bod gan yr awdurdod ethos o annog annibyniaeth, ond bod cefnogaeth annigonol ac fe awgrymwyd y dylid blaenoriaethu'r mater. Fe holwyd os gellid ail-gyfeirio cyllideb y Bwrdd Iechyd i grantiau cyfleusterau anabl er mwyn cynorthwyo i ryddhau gwlâu a gwneud arbediad, ond fe gadarnhawyd bod yr ymagwedd hon wedi cael ei chodi gyda'r Bwrdd Iechyd ond wedi cael ei wrthod oherwydd y gwahaniaeth rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd.

Gofynnodd aelod os oedd y cyllid ar gael, a fyddai modd lleihau'r galw cyfredol. Fe ymatebwyd bod y galw yn bennaf yn anhysbys oherwydd ei fod yn ymwneud â'r boblogaeth hŷn a'r angen anrhagweladwy ar gyfer lefelau amrywiol o addasiadau neu symud i lety mwy addas.

Holodd Aelod am nifer y bobl yn yr ysbyty a oedd yn aros am addasiadau grant cyfleusterau anabl er mwyn galluogi iddynt ddychwelyd adref. Cadarnhawyd na fod y ffigurau ar gael ar unwaith ond bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud trwy therapyddion galwedigaethol yr ysbyty.

Mewn ymateb i gwestiwn, fe esboniwyd bod yna gydweithio ym mhrosiect Gwent gyfan "Yn un Lle", gyda Gofal Cymdeithasol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol yn gwneud cynigion ar y cyd i ddatblygu datrysiadau tai sy'n buddio Iechyd ar lefel strategol uwch. Mae un datblygiad o'r fath wedi cael ei gyflwyno gyda Tai Sir Fynwy (Tŷ Ynysgynwraidd, y Fenni) ac mae cwmpas am gynlluniau tebyg yn y dyfodol.

Unwaith eto fe drafododd aelodau y mater o symud pobl allan o'r ysbyty i dai cymdeithasol, ac fe'u hysbyswyd na fyddai Gwasanaethau Iechyd yn rhyddhau claf tan fod y gwaith angenrheidiol wedi cael ei wneud.

Fe drafodwyd y cyflymder o gwblhau gwaith ac fe gadarnhawyd bod oedi yn ymwneud â chymhlethdod y gwaith a'r diffyg cyllid.

**Argymhellion**

1. Fe ystyriodd y Pwyllgor sut mae'r rhaglen addasiadau ar gyfer pobl anabl yn cefnogi trigolion i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn y cartref ac fe argymhellwyd bod y tanwariant a nodwyd yn cael ei defnyddio i leihau'r llwyth gwaith wrth gefn o addasiadau gofynnol.

2. Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet gynnydd mewn cyllid cyfalaf ar gyfer grantiau addasiadau anabl yn 2017//18 ac yn y blynyddoedd dilynol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2017 at 10.00 am**

**Sylwadau'r Cadeirydd**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad clir a defnyddiol yn ymwneud â materion sydd heb gael eu datrys dros nifer o flynyddoedd. Fe nododd bod yr argymhelliad i ddefnyddio tanwariant a nodwyd yn cynrychioli'r ffordd ymlaen yn y tymor byr er mwyn lleihau'r llwyth gwaith wrth gefn o'r addasiadau sy'n ofynnol.

Fe anodwyd y Cabinet i ystyried o ddifri cynnydd yn y cyllid cyfalaf ar gyfer grantiau addasiadau anabl yn 2017/18 ac yn y blynyddoedd dilynol.

**8. <u>Drafft Gynigion Cyllideb Cyfalaf 2017/18 i 2020/21</u>**

**<u>Cyd-destun:</u>**

Craffu ar y gyllideb cyfalaf a gynigir ar gyfer 2017/18 a'r cyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer y tair blynedd 2018/19 i 2020/21.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

**Materion yn ymwneud â'r Cynllun Arian Cyfalaf Tymor Canolig**

- Mae'r rhaglen gyfalaf pedair blynedd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn a'i diweddaru i gymryd unrhyw wybodaeth newydd sy'n berthnasol i ystyriaeth.

- Prif gydran y Cynllun Arian Cyfalaf Tymor Canolig ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw Rhaglen Ysgolion y Dyfodol. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cymeradwyo cyllido pellach ar gyfer y rhaglen yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2016.

- Mae nifer o feysydd eraill ble mae ymrwymiad i fuddsoddi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r cynlluniau'n eistedd y tu allan i'r rhaglen wrth i waith symud yn ei flaen i adnabod y gofynion cyllido. Sef:

  - Pwll Trefynwy - ymrwymiad i ail-ddarparu'r pwll yn Nhrefynwy o ganlyniad i raglen Ysgolion y Dyfodol.

  - Hyb y Fenni - ymrwymiad i ail-ddarparu'r llyfrgell gyda'r Siop Un Stop yn y Fenni er mwyn cwblhau'r gwaith o greu Hyb ym mhob un o'r trefi.

  - Grantiau Cyfleusterau Anabl - mae'r galw am grantiau lawer uwch na'r gyllideb ar hyn o bryd. Mae gwaith ar y gweill i asesu lefel y buddsoddiad sydd ei angen i facsimeiddio'r effaith a'r budd i'r sawl sy'n derbyn y grant.

- Dêl y Ddinas - mae 10 Awdurdod yn rhanbarth Dinas Caerdydd yn edrych ar botensial Dêl y Ddinas gwerth £1.2 biliwn. Mae cytundeb i ymrwymo i'r rhaglen hon yn cael ei geisio ar draws y rhanbarth ym mis Ionawr 2017 a byddai'n cael effaith ar y Cynllun Arian Cyfalaf Tymor Canolig. Mae'r effaith posib ar gyllidebau awdurdodau unigol yn cael eu modelu ar hyn o bryd cyn gwneud penderfyniadau ar brosiectau a phroffiliau penodol er mwyn i awdurdodau ddechrau adlewyrchu'r ymrwymiad yn eu Cynlluniau Arian Tymor Canolig.

- Bloc J ac E - Mae'r rhaglen o ail-drefnu'r swyddfeydd yn cael ei hystyried i weld a oes yna ddatrysiad a fyddai'n galluogi uno safleoedd Magwyr a Brynbuga, gan ryddhau cyllid i dalu am y buddsoddiad angenrheidiol er mwyn caniatáu defnyddio'r blociau.

- Mae strategaeth sy'n galluogi cynnwys y rhaglen graidd, Ysgolion y Dyfodol a'r cynlluniau uchod yn cael ei datblygu. Er gwaethaf hyn, bydd nifer sylweddol o risgiau sydd heb unrhyw botensial i'w hariannu o fewn y Cynllun Arian Cyfalaf Tymor Canolig ac mae risg sylweddol yn gysylltiedig â hyn. Mae'r Cabinet eisoes wedi asesu'r risg hon.
- Y polisi cyfredol yw bod cynlluniau newydd yn gallu cael eu hychwanegu at y rhaglen, dim ond os yw'r achos busnes yn dangos eu bod yn hunan-ariannu neu os bennir bod y cynllun yn flaenoriaeth uwch na chynlluniau cyfredol yn y rhaglen ac felly yn eu disodli.

- Yn y grynodeb, mae'r materion a'r risgiau canlynol wedi cael eu hadnabod:

  - Rhestr hir o risgiau wrth gefn - isadeiledd, eiddo, gwaith DDA, hawliau tramwy cyhoeddus, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Does dim o'r risgiau hyn yn gynwysedig yn y Cynllun Arian Cyfalaf Tymor Canolig cyfredol, ac mae hyn yn cynrychioli risg arwyddocaol.

  - Buddsoddiad cyfalaf sy'n ofynnol i gyflawni arbedion refeniw - mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r maes o adeiladau swyddfa ac edrych ar fodelau cyflwyno amgen ar gyfer hamdden a diwylliant, gofal cymdeithasol, buddsoddiad mewn adeiladau ac anghenion dysgu ychwanegol o bosib. Mae'r lefel o asesiad yn cael ei asesu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd eisoes, os nad yw'r cynlluniau yn mynd i ddisodli unrhyw beth sydd eisoes yn y rhaglen, yna bydd angen i'r gost o unrhyw fenthyca ychwanegol ddwyn elw er mwyn gwneud arbediad.

  - Mae'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer TG yn wag felly mae cyllid ar gyfer unrhyw fuddsoddiad mawr newydd ym maes TG yn gyfyngedig. Bydd angen i unrhyw gynlluniau TG ychwanegol naill ai allu talu am eu hunain neu ddisodli cynlluniau eraill yn y rhaglen.

  - Cylchffordd Cymru - mae'r Awdurdod wedi cwblhau gwaith diwydrwydd dyladwy ar fersiwn o'r cynnig a ddaeth i'r casgliad i beidio â pharhau, mae'r

cynnig cyfredol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru heb gymorth cyllid Awdurdod Lleol.

Fe dynnwyd sylw Aelodau at y wybodaeth mai'r Pwyllgor Dethol Oedolion oedd wedi derbyn y lleiaf o gyllid o'r holl Bwyllgorau Dethol ar gyfer cyfalaf yn y blynyddoedd diwethaf a oedd wedi canolbwyntio ar gynlluniau cynnal a chadw llety yn ymwneud â sefydliadau gofal cymdeithasol ac adnewyddu Parc Maerdy, gan nodi bod mwyafrif y gwaith heb dderbyn cyllid craidd, ond cyllid ICF o fentrau Llywodraeth Cymru.

O ran cyllidebu Cyfalaf, mae'r Cyngor yn wynebu sail lai o adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i gefnogi benthyciadau.

Fe nodwyd bod y grantiau DFG wedi cael eu cynnal ar y lefel flaenorol a bod y ffocws yn bennaf ar raglen Ysgolion y Dyfodol ac ailadeiladu dwy ysgol.  Fe nodwyd yn flaenorol, ei bod yn bosib defnyddio tanwariant yn y gyllideb Ffermydd y Sir, ond bod yna lwyth gwaith wrth gefn o waith cynnal a chadw ffermydd sydd nawr yn cyfyngu hyblygrwydd.

Fe gadarnhawyd bod y rhaglen yn cynnwys £1m o fenthyca darbodus y flwyddyn ac fe gynigwyd bod hyn yn cael ei gynnal.

Fe dynnwyd sylw aelodau at bara 3.4, yng nghyd-destun y risgiau a nodwyd yn Atodiad 1 a 3.7, sy'n sôn am ddisodliad posib Severnview a chynnydd yng nghyllid DFG.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, bydd ychydig o'r gwaith, fel y rhestrir, angen parhad mewn cyllid, ond bod £500,000 ychwanegol wedi cael ei gynnwys i symud ymlaen gyda'r gwaith trwy gymysgedd o'r strategaeth fenthyca tymor byr a chyfrifon MRP.

Fe esboniwyd y bydd y Gyllideb Cyfalaf yn cael ei osod gan y Cyngor ar ddiwedd Chwefror a bydd yna gyfleoedd i gyflwyno sylwadau ar flaenoriaethau.

**Craffu gan Aelodau**

Fe holodd Aelod, ac fe gadarnhawyd, y byddai derbynneb cyfalaf ar gyfer cael gwared â safle Magwyr, ond y gallai hwn fod yn werth llai na chost y gwaith o adnewyddu bloc J ac E oherwydd amodau cyfredol y farchnad adeiladau. Fe ychwanegwyd bod mandadau'r gorffennol wedi tybio arbediad o safle Magwyr i ail-drefnu ein hadeiladau. Fe esboniodd yr Aelod Cabinet, Adnoddau, gan ystyried hinsawdd bresennol y farchnad adeiladau, bod ystyriaeth yn cael ei roi i brydlesu'r adeilad yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan nodi y byddai'r costau o redeg adeilad Magwyr yn arwyddocaol yn y cyfrifon i adnewyddu Bloc J ac E.

Fe gadarnhawyd bod y £300,000 a restrir o dan y cynlluniau Ffermydd y Sir yn gost gwariant cyfalaf (nid y gost net ar ôl derbyniadau) i'r awdurdod o ran ei gyfrifoldebau cynnal a chadw fel landlord.

Mewn ymateb i gwestiwn, fe gadarnhawyd mai'r awdurdod oedd yn berchen ar Floc E a'i bod yn cael ei defnyddio i storio offer etholiadau ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod am y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a phryd bydd unrhyw wybodaeth ar gael. Fe gadarnhaodd yr Aelod Cabinet, Adnoddau, bod y gwaith yn symud yn ei flaen.

Yn ymwneud â Ffermydd y Sir, fe holwyd pryd adolygwyd rhenti ddiwethaf. Fe esboniwyd bod rhenti yn cael eu hadolygu ar raglen dreigl 3 neu 4 blynedd ac yn cael eu hasesu ar sail fasnachol, gan ychwanegu na fod y ffermydd o werth rhentadwy uchel. Os caiff y ffermydd y gwerthu, mae'r gwerthiant ar sail gwerth y farchnad agored, heb ostyngiad.

Fe holwyd am yr amserlen ar gyfer y disodliad arfaethedig o Severnview ac fe esboniwyd bod y cynnig hwn ar gyfer ail-ddarpariaeth wedi bod dan ystyriaeth am ychydig flynyddoedd. Fe awgrymwyd y gallai hyn fod o fewn amserlen o 5 mlynedd.

**Sylwadau'r Cadeirydd**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyfraniad wrth ystyried yr eitem hon.

9. **DRAFFT GYNIGION CYLLIDEB 2017/18 ER YMGYNGHORIAD - Pwyllgor Dethol Oedolion**

9. **CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT 2017/18 AR GYFER YMGYNGHORIAD - Pwyllgor Dethol Oedolion**

**Cyd-destun:**

- Darparu cynigion drafft manwl o'r arbedion sy'n ofynnol yn y gyllideb i fodloni'r bwlch rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r angen i wario yn 2017/18, at ddibenion ymgynghori.
- Ystyried cyllideb 2017/18 o fewn cyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ymddangosiad blaenoriaethau i arwain gweithgareddau trwy Sir Fynwy y Dyfodol.

**Materion Allweddol:**

Fe graffodd y Pwyllgor Dethol ar gynigion cyllideb y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai fel yr amlinellwyd yn Atodiad 3F o'r adroddiad, a oedd yn cyfateb i arbediad o £236,024.

Fe ddarparwyd gwybodaeth gefndir gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar refeniw a chostau gweithredu, sy'n wahanol i'r adroddiad blaenorol yn seiliedig ar gyllidebau cyfalaf. Fe esboniwyd, yn hanesyddol, bod proses o fandad wedi cael ei roi ar waith ble mae swyddogion yn cynnig mandadau ac yn gweithredu arnynt. Mae'r ymagwedd hon wedi cael ei hadolygu i herio rheolwyr gwasanaeth i gynnig awgrymiadau i wneud e.e. arbedion 5% neu 10% i wneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Fe aethpwyd i'r afael â hyn ar draws pob cyfarwyddiaeth ac fe grëwyd rhestr gynhwysfawr o gynigion yn unol â hyn, gyda rhai yn ddichonadwy a rhai yn llai realistig.

Fe ddarparwyd cyd-destun ychwanegol bod problem cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi cael ei datrys yn hytrach na darparu Cynllun Ariannol Tymor Canolig pedair blynedd i ganiatáu

ychydig o hyblygrwydd ar gyfer y weinyddiaeth newydd yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.

Fe ychwanegwyd bod modd rhagweld cyllid o Lywodraeth Ganol yn well wrth gydnabod natur wledig y Sir, fodd bynnag y canlyniad gorau oedd cyllideb sefydlog (0%) er gwaethaf y pwysau blynyddol o gynnydd mewn cyflogau, cynnydd yn y gost o fyw a chynnydd mewn chwyddiant cytundebol ac ati. Fe dynnwyd sylw at yr adroddiad, para 3.2 tybiaethau cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Fe dynnwyd sylw at y ffaith, pe na fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno, byddai'n arwain at bwysau o £2.5 miliwn y flwyddyn nesaf oherwydd chwyddiant. Ar ben hynny, roedd pwysau o fewn y gwasanaethau wedi cael eu hystyried, e.e. ble nad oedd mandadau wedi dod i'r fei fel y'u cynlluniwyd yn wreiddiol, ac fe adolygwyd y sefyllfa. Bydd y pwysau'n codi i £4 miliwn yn unol â hyn. Nid oes arbedion o £4 miliwn wedi cael eu gwneud mewn gwasanaethau oherwydd cynigion MRP i symud ymlaen gydag arbedion papur yn lle. Mae'r ymagwedd hon yn darparu lle o £1.5 miliwn ond mae'n ymhlyg bod arbedion yn dal i gael eu gwneud. Fe dynnwyd sylw at y ffaith bod canran yr arbedion arfaethedig a gyflwynir gan reolwyr yn amrywio. Mae gwaith ar y gyllideb ac arbedion yn parhau.

Gofynnwyd i aelodau ystyried y cynigion ar yfer arbedion o fewn cylch gorchwyl Oedolion (Atodiad 3f).

Fe ddarparodd yr Aelod Cabinet, Adnoddau, eglurhad bod cydnabyddiaeth o natur wledig y sir wedi dyrannu cyllid ychwanegol ond nid yw wedi newid y sefyllfa ariannol gyffredinol. Mae'r Sir yn parhau i dderyn y swm lleiaf o gyllid o bob awdurdod yng Nghymru; fesul pen o'r boblogaeth mae hyn wedi gostwng o £1060 i £995.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai dyma'r cyfle i gynnig cynigion eraill.

**Craffu gan Aelodau**

Fe holwyd am yr awgrymiad, Comisiynu Oedolion (5.2), yn cyfeirio at stopio rhentu ystafelloedd yn y Fenni. Fe gadarnhawyd na fydd prosiect Fy Niwrnod Fy Mywyd yn cael ei effeithio mewn modd negyddol trwy uno trefniadau.

O ran Adnoddau Oedolion (5.1), fe holwyd beth a olygwyd gan "Ailstrwythuro'r tîm cynghori ar gyllid a budd-daliadau er mwyn disodli 2 swydd ar raddau is", ac a byddai unrhyw effaith ar ansawdd y gwasanaeth. Fe ymatebwyd gan ddweud y bydd swyddi'n cael eu hail-raddio, manylion pellach i'w cadarnhau; mae'r broses o ymgynghori gydag undebau dal ar y gweill. Fe holwyd a oedd hyn yn gysylltiedig â 10.2 "alinio gwybodaeth budd-daliadau llesiant, cyngor a gwasanaethau cymorth" ac fe gadarnhawyd bod cyswllt rhwng y ddau awgrym yn dilyn adolygiad o hawliau llesiant sy'n adnabod nifer o byrth cynghori ar lesiant ac yn cyflwyno cyfle am effeithiolrwydd ac ymagwedd fwy cydlynol. Fe holwyd hefyd a oedd hyn ar draws y cyngor neu o fewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn unig. Fe gadarnhawyd mai dyma oedd y sefyllfa ac y gallai fod dyblygiad gan gynnwys gyda sefydliadau y tu allan i'r awdurdod a'r cyfle i gydweithio.

O ran Adnoddau Oedolion (5.3) "Lleihau cyllideb Datblygu TG", fe holwyd a fyddai effaith andwyol ar gyflwyno gwasanaethau. Fe gadarnhawyd bod y gostyngiad yn heriol ond yn gyraeddadwy trwy arbedion mewn trefniadau trwyddedu.

Fe holodd aelod am Oedolion S406 MCHT (5.2) "archwilio gofalwr yn byw yn y tŷ yn hytrach na thalu cost fesul awr trwy asiantaeth gofal" ac fe ofynnwyd a oedd yr elfen hon yn cyfeirio at un

defnyddiwr gwasanaeth neu nifer ohonynt, ac a fyddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fe esboniwyd bod yr elfen hon yn cyfeirio at asiantaethau neu ddarparwyr gofal cartref ac mae cynnig y mandad, yn rhai achosion, yw i newid y gefnogaeth fyw 24 awr i asiantaeth ofal a'i bod ddim yn ymwneud â gofal unigol.

Fe adlewyrchodd aelodau ar y 4 cynnig mandad a restrwyd o dan y Gyfarwyddiaeth Fenter (Atodiad 3c), gyda chyfanswm o £40,923 ac fe ystyriwyd bod modd rhagweld y cynigion, a'u bod yn alinio â materion a drafodwyd yn flaenorol ac yn cael eu cefnogi gan y Pwyllgor Dethol.

Roedd yn galonogol i'r Pwyllgor glywed bod dim cynigion i dorri cyllideb Addysg Oedolion. Yn hytrach, fe esboniwyd mai'r her oedd mynd i'r afael â'r diffyg rhyddfreinio yn sgil y lleihad yn y cyrsiau a ddarperir gan Goleg Gwent.

Fe atgoffwyd y Pwyllgor bod ymagwedd bragmatig wedi bod ar osod y gyllideb eleni, gan ffafrio peidio â gwneud newidiadau arwyddocaol i ardaloedd gwasanaeth cyn gweinyddiaeth cyngor newydd ym mis Mai, a hefyd i gydnabod setliad ariannol gwell y flwyddyn hon. Fe ragwelwyd hefyd y byddai setliadau'r dyfodol yn fwy heriol gan nodi ariannu'r sector cyhoeddus yn Lloegr, ac y byddai angen blaenoriaethu a chydweithio er mwyn cynnal gwasanaethau.

**Sylwadau'r Cadeirydd**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Fe ddiolchodd hefyd i'r Aelod Cabinet, Adnoddau am fynychu'r cyfarfod.
Bu'r Cadeirydd gydnabod bod dim croeso i oblygiadau'r arbedion, ond y gobaith oedd y byddai'r effaith ar drigolion mor isel â phosib.
Bu'r Cadeirydd groesawu'r anogaeth gan Swyddogion i ystyried materion traws-doriadol, nid materion unigol.

**10. <u>Pwyllgor Dethol Oedolion - Blaen-gynllun Gwaith</u>**

Derbyniwyd fersiwn diweddaraf y Cynllun Gwaith at y Dyfodol. Wrth wneud hynny, fe gytunwyd ar yr amserlen ganlynol o gyfarfodydd:

6 Chwefror 2017: Cyd-bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Dethol Oedolion i graffu ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

14 Chwefror 2017: Cyd-bwyllgor yr Economi a Datblygiad, Pwyllgor Dethol Cymunedau a'r Pwyllgor Dethol Oedolion (gydag un o'r Pwyllgorau Dethol yn cynnal y cyfarfod, dim penderfyniad ar ba un eto) gyda'r Pwyllgor Cynllunio i graffu ar y canlynol:

- Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar dai fforddiadwy
- Gwasanaeth Gosod Sir Fynwy: yr ymagwedd arfaethedig at gael mynediad at lety yn y sector rhentu preifat er mwyn atal digartrefedd
- Atal Digartrefedd - Cynllun Gwarantu Rhent (elfen o Wasanaeth Gosod Sir Fynwy)

Holodd Aelod o'r Pwyllgor pam fod Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygiad wedi cymryd cyfrifoldeb o'r Pwyllgor Dethol ar Gymunedau Cryf. Esboniwyd bod y Pwyllgor Dethol ar

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 24ain Ionawr, 2017 at 10.00 am**

Gymunedau Cryf yn gyfrifol am graffu ar ddarpariaeth Tai, cylch gorchwyl y Pwyllgor Dethol Oedolion yw digartrefedd, diwygiadau lles a thai fforddiadwy a bod gan yr Economi a Datblygiad gyfrifoldeb dros ganrannau tai fforddiadwy datblygwyr yn y Cynllun Datblygu Lleol, felly mae yna themâu sy'n gorgyffwrdd. Mae'r cyfarfod ar y cyd hwn wedi cael ei drefnu i osgoi dyblygiad.

27 Chwefror 2017: Cyd-bwyllgorau Dethol Arbennig i graffu ar y Model Cyflwyno Amgen

28 Chwefror 2017: Pwyllgor Dethol Oedolion

31 Ionawr 2017: Cyd-bwyllgorau Dethol i graffu ar y Gyllideb

Fe holodd y Cadeirydd am y broses o beth sy'n digwydd ar ôl i Bwyllgor Dethol anfon argymhelliad i'r Cabinet a nodwyd y byddai'r Bwrdd Cydlynu yn ystyried y mater hwn.

**11. <u>Cynllunydd Gwaith Cabinet a Chyngor</u>**

Fe nodwyd Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.

**12. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod ensaf sef dydd Mawrth 28 Chwefror 2017 am 10.00am</u>**

**The meeting ended at 12.12 pm**